FERSIWN CRYNO

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2019-20



Llun: "freepik.com"

# ADOLYGIAD O DREFNIADAU CRAFFU


Edrychwyd ar ein trefniadau craffu yn 2019-20. Wrth wneud y gwaith, dyma nodwyd fel pwrpas craffu:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

Mae'r adroddiad llawn yn dweud bob dim o ran yr adolygiad, canlyniad y gwaith oedd y Cyngor yn rhoi'r model yma mewn lle ar gyfer y dyfodol -




# CRAFFU ARBEDION



Un o'r pethau pwysicaf a graffwyd yn 2019-20 oedd cynlluniau arbedion posib adrannau'r Cyngor. Gyda'r aelodau craffu yn edrych yn fanwl ar y cynlluniau gan gwestiynu'r Aelodau Cabinet a'r Penaethiaid. Llwyddodd y gwaith craffu i dynnu sylw at bryderon am effaith gweithredu rhai o'r cynlluniau arbedion ar bobl Gwynedd.

# MATERION CRAFFU

Yn 2019-20, craffwyd 41 eitem yng nghyfarfodydd ffurfiol craffu, gan gynnwys y canlynol:

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**

**Grŵp Tasg Rheoli Parcio**

**Strategaeth Iaith Uwchradd**

**Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd**

**Cynllun Peilot y Canolfannau Iaith**

**Cynllun Elwa o Dwristiaeth**

**Prosiect Gofal Cartref**

**Fframwaith Maethu Cenedlaethol**

**Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru**

**Cynllun Gweithredu Tai 2020-2025**

Mae aelodau craffu yn dewis eitemau gan adnabod pwnc sydd yn bwysig ac sydd angen ei graffu er mwyn gwneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd. Bydd aelodau craffu yn parhau i wneud hyn yn 2020-21.

# YMCHWILIADAU CRAFFU

Mewn ymchwiliad, mae grŵp llai o aelodau yn edrych i mewn i fater penodol mewn cyfres o gyfarfodydd anffurfiol, cyn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu gydag argymhellion er sylw Aelodau Cabinet.

Yn 2019-20, cafodd gwaith ei wneud yn y meysydd canlynol:

**Gorfodaeth Gwastraff** - Tynnodd aelod sylw at broblemau a achosir gan bobl sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir. Argymhellwyd 6 peth i'w gwneud a derbyniwyd nhw gan yr Aelod Cabinet.

**Cynllunio a'r Iaith Gymraeg** - Edrychwyd ar sefyllfa polisi cynllunio'r Cyngor o ran cynllunio a'r iaith. Y gwaith yn tanlinellu pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg a phwysigrwydd asesu effaith datblygiadau ar yr Iaith.

**Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd** - Profiad defnyddwyr gwasanaeth cadeiriau olwyn neu ddarpariaeth brosthetig o Wasanaeth Ystum Corff a Symudedd (GYCS) Gogledd Cymru.

**Effaith Datblygiadau Adeiladau Newydd ar Ansawdd Addysg** - Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg disgyblion, ac a oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol?

**Mae'r holl wybodaeth am y gwaith craffu yn 2019-20 ar gael yn y fersiwn llawn ar wefan y Cyngor – [https://www.gwynedd.llyw.cymru/craffu](https://www.gwynedd.llyw.cymru/craffu)**

# Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2019/20

**49 aelod** wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.

**41 eitem** wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

**3 cyfarfod** o'r Fforwm Craffu wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

Aelodau craffu wedi **mynychu cyfarfodydd** Byrddau Craffu Addysg Ardal.

**Sesiynau gwybodaeth** wedi eu cynnal ar y meysydd yma:

- Rhaglen Cefnogi Llesiant Pobl
- Llesiant a Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

**Cyfarfodydd wedi eu cynnal** rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion a'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol.

**Cefnogaeth i'r gwaith craffu** gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu ac Ymgynghorydd Craffu. Mae 3 x Swyddog Cefnogi Busnes ar gael i arwain ar ymchwiliadau craffu.